

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY | Adran y Gwyddorau Bywyd

Astudiaethau israddedig mewn

# Y Gwyddorau Ecolegol

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso | t.1 |
| Ein cyrsiau | t.2 |
| Blwyddyn integredig mewn diwydiant | t.14 |
| Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg | t.15 |
| Ymchwil | t.16 |
| Uchafbwyntiau ymchwil | t.18 |
| Cyfleoedd byd-eang | t.20 |
| Y broses ymgeisio | t.21 |


THE TIMES THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2026
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN AM GYNALIADWYEDD

**Gwybodaeth bwysig**

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir am y rhaglenni gradd yn y llyfryn hwn yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w hargraffu (Hydref 2025), ond fe allai newid. Cynghorir darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs, gan gynnwys ein gofynion mynediad, cyn gwneud cais, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.





# Croeso

Croeso i'r Adran Gwyddorau Bywyd, canolfan ymchwil ac addysg o safon fyd-eang yma ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Rydym yn darparu amgylchedd dysgu eithriadol ar gyfer eich datblygiad academaidd a phersonol, gyda'r cyfleusterau diweddaraf ac ysgoloriaethau hael. Bydd darlithwyr ymroddgar ac ysbrydoledig yn dod â'ch cwrs yn fyw, gyda llawer o'n haddysgu'n cael ei arwain gan ddiddordebau ymchwil blaengar ein staff, ac yn cael ei gyfoethogi gan harddwch syfrdanol a bioamrywiaeth naturiol ein lleoliad.

Yn yr Adran Gwyddorau Bywyd gallwn gynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu i chi, yn cynnwys darlithoedd a seminarau rhyngweithiol, dosbarthiadau labordy, grwpiau tiwtorial bach, a chyrsiau maes. Mae'r hyblygrwydd o allu dewis o blith amrywiaeth o fodiwlau gwahanol yn golygu y gallwch deilwra eich cwrs i'ch diddordebau unigol. Cewch eich asesu mewn amrywiol ffyrdd, yn cynnwys arholiadau, adroddiadau labordy, cyflwyniadau a thraethodau, gyda'r cyfan wedi'i gynllunio i gyfoethogi eich setiau sgiliau penodol i'r pwnc, sgiliau personol a throsglwyddadwy.

Mae Aberystwyth ar lannau bae Ceredigion ar arfordir gorllewin Cymru, mewn amgylchedd naturiol syfrdanol, sy'n cynnig 'ystafell ddysgu fyw' a fydd yn cyfoethogi eich dysgu ymhellach. Mae'r ardal yn cynnig morlin gwych gyda glannau creigiog a thywodlyd, morfeydd heli a thwyni tywod, ag eangderau o weundir a dyffrynnoedd coediog, afonydd a llynnoedd. Mae'r amrywiaeth hwn o ecosystemau yn gysylltiedig â bioamrywiaeth sydd yr un mor gyfoethog, sy'n golygu mai Prifysgol Aberystwyth yw'r lle delfrydol i astudio'r gwyddorau ecolegol.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein cyrsiau a chyfleoedd eraill yn y llyfryn hwn. Ymunwch â ni ar Ddiwrnod Agored neu Ddiwrnod Ymweld i Ymgeiswyr i gael golwg ar yr hyn sy'n gwneud Aberystwyth yn lle mor anhygoel i astudio.

**Dr Joe Ironside**
**Pennaeth Adran**



# Ein cyrsiau

## Anrhydedd sengl

Bioleg t.3
Bioleg Planhigion t.5
Bioleg y Môr a Dŵr Croyw t.6
Cadwraeth Bywyd Gwyllt t.7
Ecoleg t.8
Sŵoleg t.10
Ymddygiad Anifeiliaid t.12

## Rydym hefyd yn cynnig:

- Amaethyddiaeth
- Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliad
- Amaethyddiaeth gyda Rheoli Busnes
- Biocemeg
- Biowyddor Ceffylau a Milfeddygol
- Biowyddorau Milfeddygol
- Geneteg
- Geneteg a Biocemeg
- Gwyddoniaeth Fiofeddygol
- Gwyddor Anifeiliaid
- Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff
- Gwyddor Iechyd (Maeth ac Ymarfer Corff)
- Microbioleg



# Bioleg

54% ar gael drwy'r **Gymraeg**

RSB Accredited Degree

## BSc (Anrh) | C100 | 3 blynedd

Ar ein gradd Bioleg, byddwch yn astudio bioleg ar bob graddfa, o fioleg amgylcheddol i organebau cyfan a bioleg celloedd.

Byddwch yn canolbwyntio ar ddeall genomau cyfan, dadansoddi eu hesblygiad, ac ymchwilio i swyddogaeth genynnau unigol, gan ddefnyddio dulliau dadansoddi sy'n torri tir newydd. Byddwch hefyd yn ystyried y benbleth foesegol sy'n codi yn sgil datblygiadau mewn gwybodaeth fiolegol, er enghraifft mewn triniaethau dadleuol ar gyfer clefydau neu feddyginiaeth atgenhedlu. Ein nod yw datblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau arbrofol a hefyd annog meddwl beirniadol, creadigol ac arloesol.

Byddwch yn elwa o:

- gymhwyso technegau moleciwlaidd gan gynnwys echdynnu, dilyniannu a dadansoddi DNA
- defnyddio labordai ymchwil ac addysgu helaeth gyda'r cyfarpar diweddaraf, gan gynnwys cyfleusterau bioddelweddu, dilyniannu DNA trwybwn uchel, proteomeg, metabolomeg a llwyfannau sbectrosgopig
- datblygu arbenigedd dadansoddol uwch mewn biowybodeg, systemau gwybodaeth ddaearyddol, modelu cilfachau hinsoddol ac epidemioleg, a chaiff hynny ei gefnogi gan fynediad at gyfleusterau cyfrifiadurol uchel eu perfformiad.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Bioleg Celloedd
- Comparative Animal Physiology
- Ecology and Conservation
- Genetics, Evolution and Diversity
- Amrywiaeth Microbau a Phlanhigion
- Sgiliau ar gyfer Biolegwyr.

**Yr ail flwyddyn:**

- Climate Change: Plants, Animals and Ecosystems
- Practical and Professional Skills in Microbiology
- Dulliau Ymchwil.

**Y flwyddyn olaf:**

- Biotechnology
- Global Biodiversity Conservation
- Prosiect Ymchwil.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg
**BR:** 28-30 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**

| | |
|---|---|
| **C101** | Blwyddyn sylfaen |
| **C102** | Blwyddyn mewn diwydiant |
| **C109** | Meistr Integredig |
| **C09F** | Meistr Integredig gyda blwyddyn sylfaen integredig. |





# Bioleg Planhigion

57% ar gael drwy'r Gymraeg

RSB Accredited Degree

## BSc (Anrh) | C200 | 3 blynedd

Mae gan raddedigion Bioleg Planhigion gyfleoedd gyrfaol gwych, ac mae Prifysgol Aberystwyth yn lle delfrydol ar gyfer cam cyntaf eich gyrfa.

Rydym yn gartref i raglenni bridio planhigion a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer gweiriau sy'n uchel o ran siwgr, adnoddau a chronfeydd data geneteg planhigion, gerddi botaneg, a'r Ganolfan Genedlaethol Ffenomeg Planhigion. Mae ein campws hefyd wedi'i leoli mewn cefn gwlad hardd a hygyrch sy'n gartref i amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau.

Trwy ddilyn y radd hon byddwch yn astudio pob agwedd ar fywyd planhigion, o'r moleciwlaidd i'r ecolegol, ac ar yr un pryd yn archwilio materion byd-eang sy'n ymwneud â phlanhigion. Byddwch yn ystyried sut y gall technoleg sy'n seiliedig ar blanhigion ein cynorthwyo i wynebu her poblogaeth ddynol sy'n tyfu a bygythiadau'r dyfodol, yn cynnwys diogelwch bwyd a newid yn yr hinsawdd.

Byddwch yn elwa o:

- gyfleusterau o safon fyd-eang gan gynnwys gerddi botaneg gydag amrywiaeth eang o blanhigion tymherus a throfannol, amrywiaeth eang o ystafelloedd tyfu a thai gwydr, ac amgueddfa o sbesimenau botanegol hanesyddol
- mynediad at y Ganolfan Ffenomeg Planhigion Cenedlaethol a'r posibilrwydd o ymwneud â'n rhaglenni bridio planhigion sy'n arwain y byd
- llu o gyfleoedd am waith maes, gan gynnwys y posibilrwydd o astudio fflora Tymherus, Trofannol ac Arctig-Alpinaidd
- cynefinoedd prydferth, gan gynnwys ecosystemau morol, rhostir, mynydd-dir, coetir a glaswelltir, yn cynnig amrywiaeth wych o waith maes a chyfleoedd hamdden.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Bioleg Celloedd
- Rheolaeth Cnydau, Glaswelltir, Priddoedd a Thir Amaethyddol
- Genetics, Evolution and Diversity
- Amrywiaeth Microbau a Phlanhigion
- Sgiliau ar gyfer Biolegwyr.

**Yr ail flwyddyn:**

- Agronomy and Crop Improvement
- Arolygu Bywyd Gwyllt
- Climate Change: Plants, Animals and Ecosystems
- Dulliau Ymchwil.

**Y flwyddyn olaf:**

- Frontiers in Plant Science
- Microbial Pathogenesis
- Prosiect Ymchwil.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**

| | |
|---|---|
| C201 | Blwyddyn sylfaen |
| C202 | Blwyddyn mewn diwydiant |
| C20F | Blwyddyn mewn diwydiant gyda blwyddyn sylfaen. |

# Bioleg y Môr a Dŵr Croyw

26% ar gael drwy'r Gymraeg

RSB Accredited Degree

## BSc (Anrh) | C164 | 3 blynedd

Mae Aberystwyth, ar arfordir Bae Ceredigion, yn un o'r lleoedd gorau oll i astudio Bioleg y Môr a Dŵr Croyw. Mae gan ein myfyrwyr fynediad rhwydd i draethau creigiog a thywodlyd, aberoedd sydd o bwys o ran cadwraeth, yn ogystal ag afonydd a llynnoedd pur. Ym Mae Ceredigion ceir hefyd y boblogaeth breswyl fwyaf o ddolffiniaid trwyn potel yn y DU!

Mae ein gradd Bioleg y Môr a Dŵr Croyw yn un o'r ychydig raddau yn y DU a fydd yn rhoi ichi ddealltwriaeth dalgylch-i'r-môr, o'r fioleg, yr ecoleg a'r heriau sy'n effeithio ar yr ecosystemau hyn, a'r cysylltiad agos rhyngddynt. Mae hyn yn hanfodol, o ystyried eu bod yn cefnogi rhai o'r rhywogaethau a'r cynefinoedd sy'n wynebu'r bygythiad mwyaf ar y blaned. Ar y cwrs hwn byddwch yn datblygu sgiliau ymarferol ym maes technegau samplo a ddefnyddir yn yr amgylchedd dyfrol, dadansoddi data a darllen llenyddiaeth yn feirniadol, a chyflwyno'r canfyddiadau i amrywiaeth o randdeiliaid. Bydd hyn yn sicrhau eich bod wedi'ch paratoi yn dda ar gyfer swyddi proffesiynol ym maes bioleg y môr a dŵr croyw.

Byddwch yn elwa o:

- gymryd rhan mewn cyrsiau maes preswyl, yn canolbwyntio naill ai ar fioleg forol neu ddŵr croyw
- mynd ar long ymchwil i ymarfer y technegau samplu a ddefnyddir gan fiolegwyr morol a dŵr croyw proffesiynol
- astudio systemau acwariwm ar gyfer organebau morol a dŵr croyw.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Comparative Animal Physiology
- Skills for Wildlife Scientists
- Ecology and Conservation
- Genetics, Evolution and Diversity
- Bioleg Celloedd
- Amrywiaeth Microbau a Phlanhigion.

**Yr ail flwyddyn:**

- Aquatic Botany
- Dulliau Ymchwil
- Freshwater Biology
- Marine Biology.

**Y flwyddyn olaf:**

- Fish Biology, Fisheries and Aquaculture
- Practical Aquatic Conservation
- Prosiect Ymchwil.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**

| | |
|---|---|
| C16F | Blwyddyn sylfaen |
| C166 | Blwyddyn mewn diwydiant |
| C169 | Meistr Integredig |
| C06F | Meistr Integredig gyda blwyddyn sylfaen integredig. |



# Cadwraeth Bywyd Gwyllt

32% ar gael drwy'r Gymraeg

RSB Accredited Degree

## BSc (Anrh) | C183 | 3 blynedd

Diben ein gradd Cadwraeth Bywyd Gwyllt yw rhoi ichi ddealltwriaeth fanwl o'r cysyniadau ecolegol sy'n sail i warchod fflora, ffawna a chynefinoedd, ar raddfa leol a byd-eang.

Mae'r tîm addysgu yn cynnwys staff academaidd sy'n ymchwilio i faterion cadwraeth er mwyn llywio gwaith rheoli a llunio polisïau. Mae'r amrywiaeth o gynefinoedd difyr a phwysig a geir yn Aberystwyth yn creu ystafell ddosbarth naturiol delfrydol ar gyfer dysgu sgiliau ymarferol. Trwy astudio Cadwraeth Bywyd Gwyllt byddwch yn dysgu am y prosesau ecolegol ac esblygiadol sydd wedi siapio cynefinoedd allweddol, a'r rhyngweithio rhwng y cynefinoedd hyn a'r bywyd gwyllt y maent yn ei gefnogi. Byddwch hefyd yn archwilio'r grymoedd gwleidyddol, ariannol a chymdeithasol sy'n sail i warchod bywyd gwyllt a rheoli'r amgylchedd. Gyda'r sylfaen hon, byddwch yn deall pwysigrwydd gwarchod bioamrywiaeth ar ystod o raddfeydd, o fioamrywiaeth genetig i fiomau cyfan, a byddwch yn datblygu'r wybodaeth academaidd a'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i allu cyfrannu at y blaenoriaethau hyn yn eich gyrfa broffesiynol.

Byddwch yn elwa o:

- amrywiaeth eang o gynefinoedd lleol, a mynediad i Barciau Cenedlaethol, Gwarchodfeydd Natur Genedlaethol, ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig – lleoliad delfrydol ar gyfer astudio holl agweddau gwarchod bywyd gwyllt a rheoli cynefinoedd
- cysylltiadau uniongyrchol â chyrff cadwraeth lywodraethol ac anllywodraethol, megis Cyfoeth Naturiol Cymru a'r RSPB, trwy ymweliadau a seminarau.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Climate and Climate Change
- Ecology and Conservation
- Genetics, Evolution and Diversity
- Interdisciplinary Approaches to Climate Change
- Amrywiaeth Microbau a Phlanhigion
- Sgiliau ar gyfer Gwyddonwyr Bywyd Gwyllt.

**Yr ail flwyddyn:**

- An Introduction to Landscape Ecology and Geographic Information Systems
- Dulliau Ymchwil
- Wildlife Management.

**Y flwyddyn olaf:**

- Global Biodiversity Conservation
- Prosiect Ymchwil
- Wildlife Conservation.

Mae'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol yn cynnwys:

- Tropical Zoology Field Course
- Arolygu Bywyd Gwyllt
- Terrestrial Ecology Field Course.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 128-120 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**

| | |
|---|---|
| C08F | Blwyddyn sylfaen |
| C184 | Blwyddyn mewn diwydiant. |

# Ecoleg

32% ar gael drwy'r Gymraeg

RSB Accredited Degree

## BSc (Anrh) | C180 | 3 blynedd

Yn sgil yr angen brys i gofnodi, deall ac, yn y pen draw, atal dirywiad bioamrywiaeth, ceir galw mawr am ecolegwyr. Nod y radd hon yw rhoi ichi'r wybodaeth academaidd a'r sgiliau ymarferol er mwyn diwallu'r galw hwn.

Ar ein gradd Ecoleg byddwch yn astudio'r rhyngweithio rhwng organebau a'u hamgylchedd, gan greu'r sylfaen hanfodol er mwyn datblygu eich dealltwriaeth o sut y bydd bywyd gwyllt yn ymateb i fygythiadau amgylcheddol yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys llygredd, newid yn yr hinsawdd, rhywogaethau ymledol, a dinistrio cynefinoedd. Ein nod ar y radd hon yw eich hyfforddi i fod yn rhan o'r genhedlaeth nesaf o ecolegwyr a fydd yn ymateb i fygythiadau amgylcheddol, yn canfod atebion, ac yn helpu i gynnal bioamrywiaeth i'r dyfodol.

Byddwch yn elwa o:

- astudio mewn ardal a chanddi gyfoeth o dirweddau trawiadol amrywiol, ac sy'n cynnig ecosystemau naturiol a lled-naturiol gan gynnwys arfordir Bae Ceredigion, amgylcheddau dŵr croyw, coedwigoedd, rhostiroedd, gweundiroedd a chynefinoedd alpaidd
- gwaith maes sy'n elwa ar y cyfoeth o gynefinoedd yn yr ardal leol
- cwrs maes preswyl 8 diwrnod yn Iwerddon
- llawer o warchodfeydd natur o fewn cyrraedd hwylus, gan gynnwys Parciau Cenedlaethol Eryri a Bannau Brycheiniog
- cysylltiadau ag Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yr RSPB ac amrywiol ymddiriedolaethau bywyd gwyllt a choetiroedd
- y cyfle i gael profiad maes rhyngwladol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Climate and Climate Change
- Comparative Animal Physiology
- Ecoleg a Chadwraeth
- Genetics, Evolution and Diversity
- Amrywiaeth Microbau a Phlanhigion.

**Yr ail flwyddyn:**

- An Introduction to Landscape Ecology and Geographic Information Systems
- Arolygu Bywyd Gwyllt
- Climate Change: Plants, Animals and Ecosystems
- Dulliau Ymchwil.

**Y flwyddyn olaf:**

- Environmental Protection, Law, Sustainability and Consultancy
- Population and Community Ecology
- Prosiect Ymchwil

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**C18F** Blwyddyn sylfaen
**C181** Blwyddyn mewn diwydiant.





# Sŵoleg

26% ar gael drwy'r **Gymraeg**

RSB Accredited Degree

## BSc (Anrh) | C300 | 3 blynedd

Mae Aberystwyth yn lle rhagorol i astudio bywyd anifeiliaid yn ei holl amrywiaeth. Mae yma gyfoeth o arfordiroedd, aberoedd, coetiroedd a bryniau sy'n llawn bywyd gwyllt o fewn tafliad carreg i'r campws. Mae'r rhain yn cynnal pryfed prin, y barcud coch a'r frân goesgoch, ac mae Bae Ceredigion yn enwog am adar y môr, y morlo llwyd, y dolffin trwyn potel a'r llamhidydd harbwr.

Fel Sŵolegydd, byddwch yn datblygu gwybodaeth eang am amrywiaeth esblygiad, anatomeg, ffisioleg, ymddygiad, ecoleg a chadwraeth anifeiliaid. Byddwch yn meithrin sgiliau ardderchog yn y maes ac yn y labordy a bydd gennych ddewis i ymchwilio i fywyd anifeiliaid ymhellach i ffwrdd drwy gwrs maes preswyl. Gan ddibynnu ar y modiwlau a ddewisir, mae'n bosibl y byddwch yn astudio sŵoleg amgylcheddau coedwigoedd glaw trofannol tra-amrywiol.

Byddwch yn elwa o:

- y technegau sŵolegol diweddaraf gan gynnwys dadansoddiadau moleciwlaidd, dulliau microsgopeg flaengar ac asesiad bioamrywiaeth gyfoes
- gweithdai, sesiynau labordy a chyrsiau amrywiol yn y maes
- y cyfle i gymryd rhan mewn cyrsiau maes preswyl mewn gwledydd eraill
- amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau yn ardal Aberystwyth sydd o bwys rhyngwladol
- mynediad i'n cyfleusterau ymchwil acwariwm i astudio anifeiliaid morol a dŵr croyw
- ein hamgueddfa byd natur sy'n cynnwys sbesimenau sŵolegol a botanegol hanesyddol.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Bioleg Celloedd
- Comparative Animal Physiology
- Ecology and Conservation
- Genetics, Evolution and Diversity
- Amrywiaeth Microbau a Phlanhigion
- Sgiliau ar gyfer Gwyddonwyr Bywyd Gwyllt.

**Yr ail flwyddyn:**

- Dulliau Ymchwil
- Invertebrate Zoology
- Vertebrate Zoology.

**Y flwyddyn olaf:**

- Prosiect Ymchwil.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio yn yr ail a'r drydedd flwyddyn i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Animal Behaviour
- Freshwater Biology
- Global Biodiversity Conservation
- Marine Biology
- Tropical Zoology Field Course
- Wildlife Surveying.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**

| | |
|---|---|
| **C301** | Blwyddyn sylfaen |
| **C302** | Blwyddyn mewn diwydiant |
| **C30Y** | Blwyddyn astudio dramor |
| **C3Y1** | Blwyddyn astudio dramor gyda blwyddyn sylfaen |
| **C309** | Meistr Integredig |
| **C39F** | Meistr Integredig gyda blwyddyn sylfaen integredig. |





# Ymddygiad Anifeiliaid

24% ar gael drwy'r Gymraeg

RSB Accredited Degree

## BSc (Anrh) | C120 | 3 blynedd

Mae Aberystwyth yn lle gwych i archwilio ymddygiad anifeiliaid gwyllt a dof. Mae cynefinoedd hygyrch gerllaw yn ein galluogi i arsylwi ar ystod amrywiol o rywogaethau anifeiliaid gwyllt carismatig, tra bod rhywogaethau dof yn cael eu cadw ar ein ffermydd, yn ein canolfan geffylau ac yn ein cyfleusterau acwariwm. Mae llawer o'n staff addysgu yn ymchwilwyr gweithgar, yn ymchwilio ecoleg ac esblygiad ymddygiad neu'r mecanweithiau niwrobiolegol tu ôl i hyn.

Bydd ein gradd mewn Ymddygiad Anifeiliaid yn rhoi ichi wybodaeth fanwl am ymddygiad anifeiliaid. Byddwch yn datblygu'r sgiliau gwyddonol, arsylwadol a dadansoddol sydd eu hangen i ddeall y pwnc, a byddwch yn defnyddio'r sgiliau hynny mewn astudiaethau ymarferol o anifeiliaid fertebraidd ac anfertebraidd mewn amrywiaeth o amgylcheddau naturiol a chaeth, a lleoliadau labordy. Bydd cael eich addysgu gan filfeddygon yn eich helpu i gymhwyso'ch dealltwriaeth o ymddygiad anifeiliaid i faes iechyd a lles anifeiliaid.

Byddwch yn elwa o:

- fynediad at gyfleusterau acwariwm ar gyfer astudio pysgod ac infertebratau dyfrol; coedwigoedd sy'n cynnwys blychau nythu pwrpasol; a'n casgliad o sbesimenau biolegol hanesyddol
- ymweliadau i astudio anifeiliaid yn gaeth ac yn eu cynefin, e.e. aber afon Dyfi — sy'n safle pwysig i adar ymfudol yn y gaeaf
- cael y cyfle i gymryd rhan mewn cwrs maes preswyl saith diwrnod, i drwytho'ch hun mewn astudiaeth ymarferol o ymddygiad anifeiliaid
- ein haddysgu arloesol sy'n defnyddio technoleg i gyfoethogi'r dysgu gan rai sy'n weithgar ym maes ymchwil ac eraill sy'n filfeddygon.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Bioleg Celloedd
- Comparative Animal Physiology
- Disease Diagnosis and Control
- Ecology and Conservation
- Genetics, Evolution and Diversity
- Sgiliau ar gyfer Gwyddonwyr Bywyd Gwyllt.

**Yr ail flwyddyn:**

- Researching Behavioural Ecology
- Dulliau Ymchwil
- Animal Behaviour
- Vertebrate Zoology
- Veterinary Health.

**Y flwyddyn olaf:**

- Behavioural Neurobiology
- Behaviour and Welfare of Domesticated Animals
- Prosiect Ymchwil.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**C122** Blwyddyn mewn diwydiant.
**C12F** Blwyddyn sylfaen.





# Blwyddyn integredig mewn diwydiant

Os ydych chi'n dymuno ehangu eich gorwelion a chael blas o'r gweithle neu brofi gyrfa drwy leoliad gwaith, bydd y flwyddyn integredig mewn diwydiant yn cryfhau ac yn gwella eich cyfleoedd gyrfa ar ôl graddio. Mae'r rhan fwyaf o'n cyrsiau anrhydedd sengl ar gael gyda'r opsiwn o gael blwyddyn integredig mewn diwydiant.

Cynhelir y flwyddyn integredig mewn diwydiant yn eich trydedd flwyddyn ac yna byddwch yn dychwelyd i Aberystwyth i gwblhau eich gradd yn y bedwaredd flwyddyn. Caiff y flwyddyn ei hasesu ac mae'n cyfrannu at farc terfynol eich gradd.

Gall ceisiadau a chyfweliadau gymryd llawer o amser a byddwch yn graddio flwyddyn yn hwyrach na'ch ffrindiau yn y brifysgol, ond mae manteision y flwyddyn integredig mewn diwydiant yn bendant yn gorbwyso'r anfanteision.

## Manteision:

- Mwy cyflogadwy wrth raddio
- Mwy tebygol o gael cyflog cychwynnol uwch
- Mwy tebygol o sicrhau swydd ar lefel gradd.

## Mae ein myfyrwyr wedi nodi manteision ychwanegol:

- Dod i wybod beth hoffech chi ei wneud mewn gwirionedd ar ôl graddio
- Profiad gwych – archwilio maes newydd a all fod dramor
- Gwneud eich blwyddyn olaf yn haws
- Datblygu eich rhwydweithiau cymdeithasol a phroffesiynol.

## Pa gymorth sydd ar gael?

- Ceir cymorth gan aelod academaidd o staff sy'n bennaf gyfrifol am fyfyrwyr y flwyddyn integredig mewn diwydiant ac ymgynghorydd Gyrfaoedd yr adran, yn gweithio law yn llaw gyda'r Gwasanaeth Gyrfaoedd.
- Yn eich blwyddyn gyntaf cewch arweiniad ar sut i archwilio cyfleoedd gyrfa a chryfhau eich cyflogadwyedd
- Yn eich ail flwyddyn byddwch yn cael help i chwilio am swyddi, ysgrifennu CV, llythyrau eglurhaol a gwneud ceisiadau. Byddwch yn derbyn ymarfer cyfweliad ffurfiol a chymeradwyaeth swyddogol i'ch lleoliad(au)
- Yn ystod eich Blwyddyn mewn Diwydiant byddwch yn cael cyswllt a chefnogaeth reolaidd a bydd goruchwyliwr academaidd yn ymweld â chi.



# Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

Gellir astudio pob cynllun gradd israddedig yn Adran Gwyddorau Bywyd yn rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn rhai cynlluniau gradd, mae dros hanner y modiwlau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gallwch ddewis cyflwyno eich holl waith cwrs, yn cynnwys aseiniadau a chyflwyniadau llafar drwy gyfrwng y Gymraeg a chwblhau eich arholiadau ysgrifenedig yn Gymraeg, beth bynnag yw cyfrwng addysgu'r modiwl. Mae'r Adran hefyd yn sicrhau bod yr holl fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn cael tiwtor personol a thiwtor traethawd hir sy'n gallu siarad yr iaith. Mae'r trefniadau addysgu hyn yn golygu bod ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael i fyfyrwyr o amrywiaeth o gefndiroedd Cymraeg.

Mae astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn fanteisiol mewn sawl ffordd. Mae'r manteision hyn yn cynnwys gwell cyfleoedd swyddi, cael eich addysgu mewn grwpiau llai a bod yn rhan o gymuned Gymraeg gyfeillgar a chroesawgar.

Bydd yr holl fyfyrwyr sy'n astudio modiwlau cyfrwng Cymraeg yn gymwys i dderbyn ysgoloriaeth astudio cyfrwng Cymraeg y Brifysgol, werth hyd at £250 y flwyddyn. Ymhellach, mae llawer o gyrsiau gradd yn gymwys am ysgoloriaethau israddedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sydd werth £1500 dros dair blynedd.

I gael rhagor o wybodaeth am yr ysgoloriaethau hyn ac i gael rhestr o'r cynlluniau gradd cymwys gweler gwefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: **colegcymraeg.ac.uk/myfyrwyr/prifysgol**



# Ymchwil

Mae'r Adran Gwyddorau Bywyd yn ganolfan ymchwil ac addysgu a gydnabyddir yn fyd-eang sy'n cynnig cyfleusterau unigryw ar gyfer ymchwil mewn ymateb i heriau byd-eang fel diogelwch bwyd, bioynni a chynaladwyedd, ac effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae gwyddonwyr yn cynnal ymchwil ar enynnau a moleciwlau, organebau cyfan a'r amgylchedd.




Ein cwch ymchwil 10 metr, Taliesin



## Grŵp Ymchwil Ecolegol ac Esblygol

Mae Ymchwil Ecolegol ac Esblygol yn rhychwantu ecosystemau daearol, dŵr croyw a morol. Rydym ni'n cynnal ymchwil i ddŵr, priddoedd, planhigion ac anifeiliaid (infertebratau a fertebratau) a'u rhyngweithio. Rydym ni'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau ar draws graddfeydd amser a gofod i ymdrin â chwestiynau allweddol am y ffordd mae ecosystemau'n gweithio a sut maent yn gweithredu. Er bod gennym ddiddordeb yn y presennol, mae ein hymchwil yn estyn i'r dyfodol drwy edrych ar sut y bydd amrywiaeth eang o newidynnau o ran newid yn yr hinsawdd fel cynhesu, CO2, asideiddio'r cefnfor ac ymbelydredd uwch-fioled yn effeithio ar ecosystemau. Caiff ein hymchwil ei integreiddio gydag addysgu ac rydym ni'n ystyried ein labordai a'r maes fel mannau hyfforddi. Mae'r canlynol ymhlith y meysydd rydym ni'n canolbwyntio arnyn nhw:

- pridd a'i rannau cyfansoddol
- ecoffisioleg planhigion a sut mae planhigion yn ymateb i bwysedd abiotig a biotig mewn cymunedau lled-naturiol
- y berthynas agos rhwng planhigion ac infertebratau, yn cynnwys alga morol a llysysyddion
- sut mae anifeiliaid pori yn cynnwys da byw yn effeithio ar gymunedau planhigion
- natur cystadleuaeth a sut mae cymunedau planhigion ac anifeiliaid yn gweithio
- technegau ar gyfer gwneud lle i natur mewn strwythurau a saerniwyd ar yr arfordir.

## Grŵp Ymchwil Bioleg Planhigion ar gyfer y Fioeconomi Gynaliadwy

Mae'r grŵp hwn yn ymgymryd â bioleg planhigion a bridio a gydnabyddir yn rhyngwladol sy'n berthnasol i gynhyrchu biomas drwy gasglu a nodweddu germplasm perthnasol yn y canolfannau amrywiaeth; bridio croesrywiau cnwd uchel â gwydnwch yn erbyn sychder, oerfel a metel trwm i alluogi planhigion i dyfu ar diroedd ymylol yn yr hinsoddau cyfredol ac yn y dyfodol; a deall a thrin blodeuo a heneiddio er mwyn bridio gwell croesrywiau. Mae'r technegau allweddol a ddefnyddir yn ein hymchwil yn cynnwys rheoli maetholion, sefydlu nitrogen, ailgylchu potasiwm ac atafaelu carbon.

## Grŵp Ymchwil Bioleg Ddyfrol, Ymddygiadol ac Esblygol

Mae'r grŵp hwn yn defnyddio ymagweddau rhyngddisgyblaethol at ddiddordeb sy'n uno: sut mae anifeiliaid yn addasu i'w hamgylchedd. O fewn y nod hwn rydym yn defnyddio amrywiaeth eang o dechnegau maes a labordy i ymchwilio i gwestiynau allweddol mewn ecoleg, esblygiad ac ymddygiad poblogaethau gwyllt. Rydym ni'n cyfuno arbenigedd a gweithgareddau ar draws y grŵp i ddarparu addysgu o ansawdd uchel yn seiliedig ar ymchwil. Mae aelodau o'r grŵp yn edrych ar y canlynol:

- plastigrwydd ymddygiadol ac ecoleg poblogaeth infertebratau
- esblygiad organebau dyfrol a'u parasitiaid
- ymddygiad ac ecoleg adar
- ymwybyddiaeth a rheolaeth niwroffisegol ymddygiad anifeiliaid
- niwroetholeg infertebratau
- esblygiad bioamrywiaeth ddyfrol a chysylltedd poblogaeth
- rhythmau circadaidd a circatidaidd mewn organebau morol.

# Uchafbwyntiau ymchwil

## Llygredd gwrthfiotig yn tarfu ar ficrobiom y perfedd ac yn rhwystro cof malwod dyfrol

Mae’r dŵr gwastraff sy'n mynd i mewn i'n nentydd a'n hafonydd yn cynnwys cymysgedd o gemegau a ddefnyddir i drin pobl ac anifeiliaid. Mae ymchwil Dr Sarah Dalesman yn dangos y gall llygredd gwrthfiotig newid y microbiom ym mherfedd anifeiliaid dyfrol er anfantais i’w goroesiad. Bu Ignacio A. Cienfuegos, myfyriwr o Gynllun Bioleg y Môr a Dŵr Croyw, yn gweithio ar y prosiect hwn yn ystod ei radd. Canfu’r ymchwilwyr fod y gwrthfiotigau yn newid microbiom y perfedd yn sylweddol ac yn newid helaethrwydd y bacteria y canfuwyd eu bod yn ymwneud â ffurfio cof iach mewn anifeiliaid eraill, gan gynnwys bodau dynol.


Malwoden (*Lymnaea stagnalis*).
Llun: Dr Sarah Dalesman


Llun: Dr Bibi Linden

## Ecoleg Seilwaith Llinol yn helpu i amddiffyn bywyd gwyllt.

Mae seilwaith dynol, megis ffyrdd a llinellau pŵer, yn cael effeithiau andwyol di-ri ar fioamrywiaeth fyd-eang ac mae llawer o fylchau o hyd yn yr wybodaeth ynghylch maint yr effeithiau a sut i'w lliniaru. Mae gwyddonwyr Aberystwyth yn helpu i lenwi'r bylchau hyn drwy weithio ar rywogaethau o bryder cadwraeth uchel yn Ne Affrica (gan ganolbwyntio ar brimatiaid yn bennaf) a'r DU i gefnogi ymdrechion cadwraeth rhywogaethau.



## Morloi’r Antarctig yn helpu gwyddonydd Aberystwyth i fonitro cynhesu’r môr

Bydd pa mor bell a pha mor gyflym y mae'r cerrynt cynnes yn llifo o dan rewlifoedd yr Antarctig, gan eu toddi oddi tano, yn effeithio ar pa mor gyflym y byddan nhw’n cwympo. Gallai eu diflaniad arwain at gynnydd trychinebus yn lefel y môr gan adael aneddiadau arfordirol mawr ar draws y byd o dan y dŵr. Hyd yn oed gydag offer blaengar, gall fod yn anodd iawn mesur tymheredd dŵr dwfn yn Antarctica - yn enwedig o dan yr iâ. Fodd bynnag, mae morloi Weddell ac eliffant yn nofio'n rheolaidd trwy'r union ddyfroedd y mae gwyddonwyr am eu monitro. Bydd yr ymchwilydd o Aberystwyth yn lleoli ac yn tagio morloi fel rhan o’r ymdrech ryngwladol hon i ddeall effeithiau newid hinsawdd mewn rhanbarthau pegynol. Bydd y data o'r morloi yn cael ei dderbyn trwy loeren pan fydd y morloi'n dod nôl i'r wyneb uwchben y cefnfor.


Morloi eliffant yn yr Antarctig.
Llun: Dr Guilherme Bortolotto



## Prosiect blychau nythu Aberystwyth yn edrych ar effaith newid hinsawdd ar fridio adar

Diben yr astudiaeth yw gwella ein dealltwriaeth o’r effaith y mae newid hinsawdd yn ei chael ar yr ymwneud rhwng gwahanol rywogaethau, yn enwedig adar y coetir. Rydyn ni’n gwybod bod gwanwyn cynhesach eisoes yn arwain at adar yn bridio yn gynt, ac rydyn ni’n gobeithio deall mwy ar sut y gallai hyn effeithio ar y gystadleuaeth rhwng rhywogaethau adar gwahanol. Mae myfyrwyr ar y cynllun gradd Cadwraeth Bywyd Gwyllt yn helpu gyda'r prosiect.

# Cyfleoedd byd-eang

**Mae tîm Cyfleoedd Byd-eang Aberystwyth yn cynnig ystod gyffrous o opsiynau i chi fynd dramor yn rhan o'ch gradd: o gyrsiau byr a chyfleoedd gwirfoddoli yn yr haf, i semester lawn neu flwyddyn dramor yn astudio mewn prifysgol sy'n un o'n partneriaid. Mae ein partneriaid yn cynnwys Norwy, Japan, Denmarc, Canada, Awstria, Sbaen, a Mecsico Newydd.**

Os byddwch yn dewis astudio gyda blwyddyn integredig dramor, mae'r Brifysgol yn eich galluogi i astudio am un neu ddau semester yn ystod eich trydedd flwyddyn, gan ddychwelyd i Aberystwyth ar gyfer eich blwyddyn olaf ac i raddio.

Dengys adroddiadau bod myfyrwyr sy'n astudio dramor yn fwy deniadol i gyflogwyr ac yn ennill mwy o arian na'u cyfoedion. Beth felly am fanteisio ar gyfle anhygoel a gwella eich sgiliau holl bwysig ar yr un pryd trwy ddewis astudio dramor?





# Y broses ymgeisio

1 **Gwnewch gais trwy UCAS.com**
Gwiriwch y dyddiad cau UCAS ar UCAS.com. Cod sefydliad Prifysgol Aberystwyth: A40. **COFIWCH:** Cewch rif UCAS 10 digid. Cadwch hwn wrth law oherwydd gofynnir am y rhif nifer o weithiau.

2 **Bydd y Brifysgol yn ystyried eich cynnig**
**COFIWCH:** Defnyddiwch Hwb UCAS i gadw llygad ar eich cais. Yn Aberystwyth rydym yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn saith diwrnod.

3 **Bydd y cynnig i'w weld ar Hwb UCAS**
Bydd penderfyniad y Brifysgol yn cael ei ddangos ar Hwb UCAS - os ydych wedi derbyn cynnig, fe fyddwch yn gallu gweld pa raddau sydd angen arnoch i sicrhau eich lle.

4 **Penderfynwch ble i fynd**
Pan fyddwch wedi cael eich holl gynigion, bydd angen i chi benderfynu i ba brifysgol yr hoffech fynd, o fewn amser penodol. Dyma pryd y bydd angen i chi nodi pa brifysgolion fydd eich dewisiadau Cadarn ac Wrth Gefn.

5 **Llety**
Pan fyddwch wedi gwneud eich dewis Cadarn/Wrth Gefn gallwch wneud cais am lety.

6 **Diwrnod y canlyniadau**
Bydd Hwb UCAS yn dangos os yw eich lle wedi'i gadarnhau gyda'ch Dewis Cadarn. Os nad ydych wedi cael y graddau yr oeddech yn gobeithio, gallwch ystyried gwneud cais drwy Glirio.

7 **Dechreuwch bacio!**
Cofiwch gadw llygad ar eich e-byst am wybodaeth am eich diwrnod cyntaf a'r gweithgareddau croeso.

Adran Y Gwyddorau Bywyd
Prifysgol Aberystwyth,
Penglais,
Aberystwyth,
Ceredigion, SY23 3DA

+44 (0) 1970 622021

derbyniadau@aber.ac.uk

@aberdlsagb.bsky.social

aberdlsagb




Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan
Marchnata Byd-eang a Denu Myfyrwyr,
Prifysgol Aberystwyth 2025.

Argraffwyd ar bapur
wedi'i ailgylchu 100%